Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arweiniad ynglŷn ag ysgolion yn y categori mesurau arbennig a'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 yn dweud **na** ellir treulio cyfnod ymsefydlu mewn ysgol y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddi h.y. a ddisgrifiwyd yn seiliau 6 neu 8 yn adran 2 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(1). Y rhagdybiaeth yw nad yw ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt yn addas i ddarparu trefniadau ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae dau eithriad posibl i'r gofyniad hwn:

(i) dechreuodd y sawl dan sylw ar ei gyfnod/chyfnod ymsefydlu, neu roedd yn cael ei gyflogi/chyflogi fel athro graddedig neu athro cofrestredig neu roedd ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, yn yr ysgol ar adeg pan nad oedd y cyfryw amgylchiadau yn gymwys, neu

(ii) mae un o Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru wedi ardystio'n ysgrifenedig ei fod/bod yn fodlon fod yr ysgol yn addas i'r diben o ddarparu goruchwyliaeth a hyfforddiant ymsefydlu.

Ni ellir ymgymryd â threfniadau ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso mewn uned cyfeirio disgyblion o dan unrhyw amgylchiadau.

**Felly, ni ddylai ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt fel arfer benodi athro newydd gymhwyso (ANG) i'w staff.**

Os yw ysgol wedi gwneud pob ymdrech i recriwtio athro ac nad yw wedi gallu penodi athro profiadol, addas, dylai'r ysgol gysylltu â'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf i drafod y swydd wag a'r penodiad. Gall yr ysgol benderfynu cysylltu ag Estyn a'r corff priodol wedyn i drafod p'un a yw'r gallu priodol yn yr ysgol i fentora a chynorthwyo ANG. Yn y lle cyntaf, dylai ysgolion gysylltu â followup@estyn.gov.wales, neu ofyn am gael siarad ag aelod o dîm dilyniant Estyn ar 029 2044 6446. Ni ddylai ysgolion yn y categori mesurau arbennig benodi ANG cyn cysylltu ag Estyn i gael arweiniad.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Os yw ysgol yn dymuno i Estyn werthuso ei phriodoldeb i benodi ANG, rhaid i'r amodau canlynol gael eu bodloni:

- Dylai'r ysgol, mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol/corff priodol y consortiwm, gyflwyno cynllun addas i Estyn cyn cwblhau'r penodiad. Gall ysgolion fod eisiau gwneud cynnig amodol o gyflogaeth, ac yna llunio cynllun gweithredu wedi'i deilwra'n dda yn benodol i gryfderau'r ANG a'r meysydd i'w datblygu, ac yna cyflwyno'r cynllun gweithredu hwn i Estyn ei gymeradwyo.
- Dylai'r cynllun amlinellu'r cymorth penodol y bydd yr ANG yn ei gael yn ystod y flwyddyn Ymsefydlu **yn ychwanegol at** hynny y byddai ANG yn ei gael fel arfer.
- Ni ddylai amser addysgu'r ANG fod yn fwy na 90% o amserlen addysgu gyfartalog athro yn yr ysgol nad yw'n dal unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol.
- Yn ogystal â'r gostyngiad o 10% yn eu hamserlen addysgu ar gyfer Ymsefydlu, mae gan ANGau hawl hefyd i ostyngiad pellach o 10% yn eu hamserlen addysgu sy'n weddill er mwyn darparu amser digyswllt statudol iddynt ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA).
- Dylai'r ysgol ddarparu cyfleoedd addas, wedi'u cynllunio'n dda i'r ANG ddatblygu arfer broffesiynol yn ystod y cyfnod ymsefydlu.
- Dylai'r ysgol benodi Mentor Ymsefydlu (MY) profiadol a hyfforddedig addas ar gyfer yr ANG, ac amlinellu yn ei chynllun gweithredu sut bydd y MY yn cefnogi'r ANG.
- Dylai'r ysgol a'r awdurdod lleol/corff priodol y consortiwm gytuno ar lefel y cymorth cychwynnol i'w roi i'r MY yn yr ysgol a'r ANG.

Dylai'r cynllun gweithredu ymsefydlu:

- Ddarparu rhaglen briodol o fanwl sy'n cynnwys monitro, arweiniad a chymorth wedi'i deilwra at anghenion unigol ac a fydd yn helpu'r ANG i fodloni'r gofynion ar gyfer cwblhau'r cyfnod ymsefydlu yn foddhaol.
- Adeiladu ar wybodaeth, medrau a chyflawniadau'r ANG o'i addysg gychwynnol athrawon (AGA). Dylai'r trefniadau ymsefydlu ystyried y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a chryfderau'r ANG a meysydd i'w datblygu fel yr amlinellir yn y Proffil Mynediad i Yrfa (y bydd yr ANG yn dod gydag ef/hi o'r AGA i'w swydd addysgu gyntaf).
- Cynnwys y MY a'r ANG wrth osod amcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hir sy'n gysylltiedig â meysydd i'w datblygu'r ANG a nodwyd yn ei Broffil/Phroffil Mynediad Gyrfa, y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, cyd-destun penodol yr ysgol a'r gofynion ar gyfer cwblhau'r cyfnod Ymsefydlu yn foddhaol.
- Cynnwys y MY a'r ANG mewn adolygiadau rheolaidd, wedi'u cynllunio, o gynnydd, yn cynnwys canlyniadau trefniadau asesu cychwynnol a dilynol yn erbyn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.
- Datblygu medrau hunanwerthuso'r ANG a darparu sylfaen gadarn ar gyfer ei Ddatblygiad/Datblygiad Proffesiynol Cynnar.